



PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CABINET

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Mercher, 21 Tachwedd 2018 am 2.30 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd A Crimmings Y Cyngorydd G Hopkins
Y Cyngorydd M Norris Y Cyngorydd R Lewis
Y Cyngorydd C Leyshon

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol
Mr C Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr C Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms L Davies, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd
Mr N Elliott, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Oedolion James, Pennaeth Adfywio a Ffyniant

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

P Jarman
S Powderhill
M Weaver
R Yeo

73 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

74 YMDDIHEURIADAU

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol J

Rosser.

75 Cofnodion

PENDERFYNODD y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gafodd ei gynnal ar 21.11.18 yn rhai cywir.

76 MODERNEIDDIO GOFAL PRESWYL A GOFAL DYDD AR GYFER POBL HÏN

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant drosolwg manwl i Aelodau o'i adroddiad mewn perthynas â moderneiddio gofal preswyl a gofal dydd i bobl hÏn yn Rhondda Cynon Taf.

Cafodd Aelodau eu hatgoffa bod y Cabinet wedi gofyn am adolygiad cynhwysfawr o wasanaethau gofal preswyl a gofal dydd i bobl hÏn ym mis Medi 2017, er mwyn pennu cyfleoedd ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol yn unol â strategaeth y Cyngor ar gyfer llety i bobl hÏn a darparu gofal ychwanegol. Yn dilyn cais y Cabinet, comisiynodd y Cyngor gwmni Practice Solutions Ltd i gynnal adolygiad annibynnol o wasanaethau gofal preswyl a gofal dydd i bobl hÏn yn Rhondda Cynon Taf.

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gyfadran fanylion ynglŷn â darpariaeth gofal preswyl a darpariaeth gofal dydd yn y Fwrdeistref Sirol cyn manylu ar yr opsiynau a gafodd eu nodi gan yr adolygiad. Gofynnodd Cyfarwyddwr y Gyfadran am gymeradwyaeth y Cabinet er mwyn ymgynghori â phobl sy'n derbyn gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u cynhalwyr, staff a phartneriaid eraill ynglŷn â'r opsiynau ar gyfer cartrefi gofal preswyl a darpariaeth gofal dydd er mwyn galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniad gwybodus ar ddyfodol y ddarpariaeth yma yn Rhondda Cynon Taf.

Soniodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg am y cyfleoedd positif yr oedd yr adolygiad wedi dod o hyd iddyn nhw, er mwyn i'r Aelodau adolygu'r ddarpariaeth gyfredol a chaniatáu i'r Cyngor barhau i fodloni ei ddyletswyddau i'w drigolion presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Soniodd yr Aelod Cabinet am y Strategaeth Gofal Ychwanegol a'r opsiynau yn yr adolygiad, gan ddweud ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn parhau i gadw presenoldeb yn y farchnad ofal o fewn RhCT a chadw presenoldeb ar draws ardal ddaearyddol eang. Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet y cynnig i ymgynghori, a soniodd am bwysigrwydd llais y cyhoedd a fyddai'n cynorthwyo'r Cabinet yn ei drafodaethau wrth edrych ar y ffordd orau ymlaen.

Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, siaradodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P Jarman a Mr P Crews (ar ran y Grŵp Undeb Llafur ar y Cyd - Unison, GMB ac Unite) ar y eitem.

Ymatebodd yr Arweinydd i'r sylwadau gan sôn am y pryderon sydd wedi'u nodi mewn perthynas â staffio a sicrhaodd yr Arweinydd yr Aelodau na fyddai unrhyw ddiswyddiadau gorfodol yn cael eu gwneud yn rhan o'r adolygiad. Cymerodd y cyfle hefyd i siarad am ansawdd uchel y gwaith y mae'r staff ymroddgar yn ei wneud i gynnal y ddarpariaeth. Roedd hefyd yn cydnabod y byddai eiriolaeth annibynnol yn cael ei ddarparu yn rhan

o'r broses ymgynghori.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Yn dilyn ystyriaeth fanwl o'r adroddiad a chanlyniadau'r adolygiad annibynnol a gafodd ei gynnal gan Practice Solutions Ltd mewn perthynas â model darparu gwasanaethau yn y dyfodol ar gyfer Cartrefi Gofal Preswyl y Cyngor a Gwasanaethau Gofal Dydd yn Rhondda Cynon Taf:-
 - a) Cychwyn ymgynghoriad 12 wythnos â'r cyhoedd, preswylwyr a staff ar y model darparu gwasanaethau yn y dyfodol ar gyfer Cartrefi Gofal Preswyl y Cyngor. Bydd ymgynghori penodol ar yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio, fel sy wedi'i nodi yn adran 6 yr adroddiad, sef bod y Cyngor yn cadw lefel o ddarpariaeth ym maes Cartrefi Gofal Preswyl sy'n canolbwyntio ar ddarparu gofal cymhleth a seibiant. Byddai lefel y ddarpariaeth a fyddai'n cael ei chadw yn seiliedig ar bennu cyfran y farchnad a'r angen ym mhob un o ardaloedd daearyddol Rhondda, Cynon a Thaf.
 - b) Derbyn adroddiad pellach sy'n crynhoi canlyniadau'r broses ymgynghori a'r adborth a fydd wedi dod i law cyn gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r cynnig.
 - c) Byddai dechrau'r broses ymgynghori yn golygu cyfyngu ar dderbyniadau i Gartrefi Gofal Preswyl mewnol y Cyngor, heblaw am amgylchiadau eithriadol lle nad oes lleoliad amgen ar gael i fodloni'r anghenion sy wedi'u hasesu. Mae hyn er mwyn lleihau unrhyw effaith bosibl ar ddefnyddwyr y gwasanaeth hyd nes y bydd y Cabinet yn ystyried canlyniadau'r ymarfer ymgynghori hwnnw ac unrhyw benderfyniad y mae'n bosibl y bydd yn ei wneud mewn perthynas â'r cynnig.
 - d) Cychwyn ymgynghoriad 12 wythnos â'r cyhoedd a staff ar yr opsiynau ar gyfer dyfodol darpariaeth gwasanaethau gofal dydd y Cyngor ar gyfer pobl hŷn. Bydd ymgynghori penodol ar yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio, fel sy wedi'u nodi yn adran 7 yr adroddiad, sef dadgomisiynu gwasanaethau gofal dydd y Cyngor yn raddol yn rhan o raglen drawsnewidiol wedi'i chynllunio, yn unol â'r model gwasanaeth newydd sy wedi'i gynnegi; a
 - e) Derbyn adroddiad pellach sy'n crynhoi canlyniadau'r broses ymgynghori a'r adborth a fydd wedi dod i law cyn gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r cynnig.

77

GWASANAETH CYMORTH YN Y CARTREF MAESTRISANT

Diweddarodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant y Cabinet ar ganlyniad yr ymgynghoriad i newid y Gwasanaeth Cymorth yn y Cartref mewnol ym Maestrisant yn Nhonysguboriau i ddarparwr gofal yn y cartref arall. Dywedodd wrth Aelodau, yn y lle cyntaf,

cafodd ei nodi y byddai modd lleihau'r gost trwy newid darparwr gofal yn y cartref. Ond, roedd ymgysylltu â phobl sy'n derbyn gofal a chymorth wedi dangos y budd sylweddol maen nhw'n ei gael, yn gorfforol ac yn feddyliol, o'r wybodaeth, y profiad a pharhad y gofal sy'n cael eu darparu gan Wasanaeth Gofal yn y Cartref Maestrisant. Parhaodd gan ychwanegu bod yr adolygiad wedi nodi y byddai modd cynnwys trigolion eraill Maestrisant yn y Gwasanaeth Gofal yn y Cartref, lle bo hynny'n briodol ac yn dilyn asesu eu hanghenion. Trwy hynny, byddai modd i'r Gwasanaeth cyfredol wneud y mwyaf o'i werth am arian a darparu gwasanaethau o safon well o bosibl i drigolion Maestrisant, o fod ar y safle.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Yn dilyn rhoi ystyriaeth fanwl i'r ymatebion i'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r posibilrwydd o newid y Gwasanaeth Cymorth yn y Cartref mewnol penodol ym Maestrisant yng Nghonsguboriau i wasanaeth gofal yn y cartref arall, penderfynwyd:

I. Cynnal y Gwasanaeth Cymorth yn y Cartref mewnol penodol yng Nghynllun Tai Maestrisant yn Nghonsguboriau a pheidio â'i newid i ddarparu gofal yn y cartref arall.

II. Darparu gofal a chymorth gan y Gwasanaeth Cymorth yn y Cartref mewnol penodol i drigolion eraill Maestrisant, lle bo hynny'n briodol ac yn dilyn asesiad o'u hanghenion, yn hytrach na defnyddio darparwr gwasanaeth cymorth yn y cartref eraill.

(**D.S.** fel y mae Cofnod 73 yn cyfeirio ato, gadawodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R Bevan y cyfarfod pan gafodd yr eitem ei thrafod ac wrth bleidleisio arni)

78

TAI GOFAL YCHWANEGOL - DARPARU GOFAL A CHYMORTH

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant yr Aelodau at ei adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y model comisiynu ar gyfer darparu gwasanaethau gofal a chymorth ar gyfer tai gofal ychwanegol sy'n bodoli eisoes ac a fydd yn bodoli yn y dyfodol. Cafodd yr aelodau wybod y byddai'r model comisiynu arfaethedig a'r fethodoleg gaffael ddilynol sy wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad yn cefnogi strategaeth y Cyngor i foderneiddio dewisiadau llety ar gyfer pobl hŷn a darparu tai gofal ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf. Parhaodd trwy ychwanegu y byddai'r model yn darparu gwasanaethau i bobl sy'n gymwys i gael llety mewn cynlluniau tai gofal ychwanegol, gan gadw eu hannibyniaeth yn y gymuned, ac yn cynnig trefniadau gofal a chymorth hyblyg ac ymatebol i ddiwallu eu hanghenion, gwella ansawdd bywyd a gwella deilliannau.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg at y trafodaethau blaenorol a gafodd Aelodau mewn perthynas â'r adroddiad am foderneiddio gofal preswyl. Nododd fod yr adroddiad gerbron Aelodau yn rhoi sicrwydd y dylai'r Cyngor gadw ei bresenoldeb yn y farchnad ofal, gan ddarparu gwasanaeth o ansawdd da i boblogaeth RhCT.

Gwnaeth yr Arweinydd sylwadau ar yr adroddiad ac eto ailadroddodd yr angen i wneud y gorau o'r staff da sydd yn eu lle gan y Cyngor eisoes.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r model comisiynu arfaethedig sy'n cael ei ffafrio ar gyfer darparu gwasanaethau gofal a chymorth yn y tai gofal ychwanegol presennol a rhai'r dyfodol fel sy wedi'i nodi yn Adran 5 yr adroddiad; sef bod y Cyngor yn datblygu gwasanaeth cymorth gofal ychwanegol mewnol i ddarparu cyfran strategol o'r farchnad ym mhob un o ardaloedd daearyddol Rhondda, Cynon a Thaf sy'n cynnal yr ansawdd bywyd gorau posibl i bobl sydd angen tai gofal ychwanegol.
2. Dirprwyo'r awdurdod i gytuno (lle bo'n briodol) ar y prosesau caffael a dyfarnu contractau ar gyfer gofal a chymorth i ddarparwyr allanol ar gyfer tai gofal ychwanegol presennol a'r dyfodol i Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant mewn ymgynghoriad â Deilydd y Portffolio, fel sy wedi'i nodi ym mharagraffau 6.8 i 6.13 yr adroddiad, sef:
 - Bod y contract cyfredol ar gyfer darparu gofal a chefnogaeth yn Nhŷ Heulog, sydd i fod i ddod i ben ar 31 Awst 2019, yn cael ei adnewyddu trwy broses gaffael wedi'i chytuno.
 - Bod y contract ar gyfer darparu gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghynllun Tai Gofal Ychwanegol Aberaman yn cael ei gomisiynu'n allanol.
 - Bod y gwasanaethau gofal a chymorth yng nghynlluniau tai gofal ychwanegol Pontypridd ac Aberpennar yn y dyfodol yn cael eu darparu gan dîm gofal ychwanegol yn y cartref mewnol gyda chytundeb lefel gwasanaeth.
3. Bod darparu gwasanaethau gofal a chymorth yng nghynlluniau tai cymorth ychwanegol yn Nhreorci a'r Porth yn cael ei werthuso yn nes ymlaen yn unol â'r cynllun arfaethedig i ddirprwyo'r awdurdod i gymeradwyo i Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant mewn ymgynghoriad â Deilydd y Portffolio ac yn unol â'r egwyddorion sydd wedi'u nodi yn adran 2 uchod.

79

DATGANIAD O FWRIAD RHANBARTHOL CWM TAF AR GYFER CEFNOGI PLANT, POBL IFAINC A THEULUOEDD

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ei adroddiad i Aelodau i'w ystyried a chymeradwyo'r drafft terfynol o Ddatganiad o Fwriad Rhanbarthol Cwm Taf ar gyfer Cefnogi Plant a Phobl Ifainc.

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gyfadran fanylion i Aelodau am y datganiad sy'n

nodi'r weledigaeth, yr egwyddorion a'r amcanion ar y cyd a fydd yn arwain gwaith yr holl bartneriaid wrth fynd i'r afael â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd y byddai hefyd, lle bo angen, yn sicrhau gwasanaethau hygrych ac integredig o safon uchel i helpu plant, pobl ifainc, teuluoedd a chymunedau yn effeithiol.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc y datganiad o fwriad a'r ddarpariaeth sydd yn ei le ar gyfer plant yn rhan o'r datganiad. Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet sylwadau ar yr ymateb gwael i'r strategaeth ymgysylltu a gafodd ei rhoi ar waith, a fyddai wedi rhoi sicrwydd bod y datganiad yn cyfateb i anghenion a disgwyliadau ar y cyd cydweithwyr, partneriaid, sefydliadau a dinasyddion lleol.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo Datganiad o Fwriad Rhanbarthol Cwm Taf ar gyfer Cefnogi Plant a Phobl Ifainc.
2. Y camau nesaf wedi'u hamlinellu, yn unol â'r manylion yn yr adroddiad.

80

CYNNIG I DDATGAN CYNLLUN TRWYDDEDU NEWYDD AR GYFER TAI AMLFEDDIANNAETH YN 2019

Rhoddodd Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd fanylion i Aelodau am effeithiolrwydd Cynllun Trwyddedu Ychwanegol 2014 ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth (HMO) a pharhaodd trwy gynnig bod y Cyngor yn cyhoeddi Cynllun Trwyddedu Ychwanegol Newydd ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth o fis Ebrill 2019, yn unol â darpariaethau Deddf Tai 2004.

Cafodd Aelodau wybod am yr ymgynghoriad a gafodd ei gynnal a chafodd crynodeb ei ddarparu o'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn dangos bod cefnogaeth sylweddol ar gyfer cyhoeddi Cynllun newydd. Cafodd Aelodau wybod hefyd am y gwaith craffu sy wedi'i wneud ar y cynllun trwyddedu ychwanegol gan y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles.

Dywedodd y swyddog fod y gwerthusiad o Gynllun Trwyddedu Ychwanegol 2014 yn dangos yr effaith gadarnhaol a gafodd y gyfundrefn drwyddedu ar safonau Tai Amlfeddiannaeth, ond roedd hi'n cydnabod bod tystiolaeth glir o'r angen am reoleiddio parhaus yn y sector i amddiffyn tenantiaid rhag safonau tai gwael ac i amddiffyn cymunedau rhag effaith niweidiol Tai Amlfeddiannaeth sy wedi'u rheoli'n wael.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol sylwadau ar yr angen am Dai Amlfeddiannaeth yn y Fwrdeistref Sirol ac anghenion newidiol trigolion. Ychwanegodd, yn sgil hyn, ei bod yn bwysig bod y Cabinet, ar ran y Cyngor, yn sicrhau bod tai o'r safon orau ar gael ar draws darparwyr ym mhob sector. Diolchodd i'r rhai a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad a'r Aelod dros Drefforest am ei gynrychiolaeth a dywedodd fod yr adborth yn gadarnhaol o blaid cyflwyno cynllun trwyddedu ychwanegol. Soniodd am y canfyddiadau, gyda 97% o'r eiddo a oedd yn destun cais am drwydded Tai Amlfeddiannaeth ddim yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol, gan ychwanegu bod ystadegau o'r fath yn dangos pam fod angen y cynllun ychwanegol.

Siaradodd yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd o blaid y cynllun trwyddedu ychwanegol arfaethedig gan sôn hefyd am yr angen i sicrhau diogelwch a lles trigolion. Gwnaethon nhw sylwadau hefyd ar yr angen i adolygu'r trefniadau ffioedd sydd ar waith ar hyn o bryd.

Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, siaradodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S Powderhill ar yr eitem.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi canfyddiadau'r Gwerthusiad o Gynllun Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth Ychwanegol 2014 yn Rhondda Cynon Taf.
2. Nodi'r adborth gan y Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles a gafodd ei gynnal ar 9 Hydref 2018 a'r camau sy wedi'u cymryd mewn ymateb - gweler manylion ym mharagraff 5.2 a 5.5 yr adroddiad.
3. Cymeradwyo datgan Cynllun Trwyddedu Ychwanegol Newydd ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth yn Rhondda Cynon Taf, i ddod i rym pan ddaw'r cynllun presennol i ben ar 31 Mawrth 2019, a chyfarwyddo swyddogion i wneud y trefniadau angenrheidiol yn unol â darpariaethau Deddf Tai 2004.
4. Cymeradwyo parhau i gynnwys pob math o Dai Amlfeddiannaeth o fewn cwmplas y Cynllun newydd.
5. Cymeradwyo'r amodau trwyddedu safonol i'w gosod ar yr holl drwyddedau Tai Amlfeddiannaeth sy wedi'u rhoi gan y Cyngor dan y Cynllun Trwyddedu Gorfodol, a'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol newydd o fis Ebrill 2019 (yn ychwanegol at unrhyw amodau pwrpasol sy'n berthnasol i drwyddedau unigol).
6. Cyfarwyddo Cyfarwyddwr y Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned i ddatblygu Strategaeth benodol i hyrwyddo a gwella'r Sector Tai Preifat wedi'u Rhentu yn Rhondda Cynon Taf, i'w hystyried yn y dyfodol gan y Cabinet.

81

RhCT GYDA'N GILYDD - ADOLYGIAD O'R BROSES DROSGLWYDDO ASEDAU YN Y GYMUNED.

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned drosolwg i Aelodau o'i adroddiad a oedd yn edrych ar ddiwygio dull gweithredu'r Cyngor mewn perthynas ag RhCT Gyda'n Gilydd er mwyn alinio'r broses a'r trefniadau ategol yn well gyda'i flaenoriaethau strategol cyfredol ar gyfer gwasanaethau ac asedau yn y gymuned.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod RhCT Gyda'n Gilydd wedi chwarae rôl bwysig a llwyddiannus er 2015 yn cefnogi nifer o grwpiau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector yn y Fwrdeistref Sirol i sicrhau llefy, a thrwy hynny, alluogi datblygu gweithgareddau a gwasanaethau sydd o fudd i'n trigolion. Ychwanegodd fod y broses wedi'i hadolygu yn dilyn adrefnu gwasanaethau, a'r bwriad yw alinio'r dull gweithredu â datblygu Canolfannau Cymunedol a'u Rhwydweithiau Cymdogaeth cysylltiedig i sicrhau bod y broses drosglwyddo asedau cymunedol yn cyflawni gofynion strategol a gofynion gwasanaeth y Cyngor.

Cafodd Aelodau wybod am y ffordd ymlaen arfaethedig i sefydlu'r dull newydd, gan nodi y byddai adroddiad yn cael ei lunio yn dilyn dadansoddi bwllch yn y ddarpariaeth. Bydd yr adroddiad yn gwneud argymhellion strategol ar ba adeiladau a sefydliadau sydd eu hangen ar Ganolfan Gymunedol yn rhan o'r rhwydwaith cymdogaeth, a'r rhai sy'n weddill y mae modd cael gwared arnyh nhw.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol yn gadarnhaol am ddull gweithredu RhCT a'r gefnogaeth sydd ar gael i'r sector gwirfoddol i ddatblygu prosiectau newydd trwy drosglwyddo asedau. Parhaodd drwy roi sylwadau ar y dull gweithredu cadarnhaol y mae'r cynnig yn ei nodi, o ran dylanwadu ar gymunedau trwy Ganolfannau Cymunedol.

Siaradodd y Cyngorydd Bwrdeistref P Jarman am y mater hefyd.

Gwnaeth yr Arweinydd sylw hefyd ar y cynnig a siaradodd am broses RhCT Gyda'n Gilydd a'r Gronfa Galluogi Cymunedol a oedd yn cynorthwyo grwpiau sefydlu a rhedeg asedau a oedd arfer bod yn eiddo'r Cyngor yn llwyddiannus.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i broses RhCT Gyda'n Gilydd, gan sefydlu dull mwy strategol sy'n cyd-fynd â rhaglen ddatblygu Canolfannau Cymunedol y Cyngor.
2. Cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i'r Gronfa Galluogi Cymunedol, gan ehangu meini prawf cymhwyster, caniatáu ceisiadau lluosog a chynnwys y Gronfa Gweithredu Cymunedol o fewn y Gronfa Galluogi Cymunedol.

(D.S. ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, gadawodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S Powderhill y cyfarfod).

82 CYNIGION I ADOLYGU'R DDARPARIAETH O GANOLFANNAU DYDD YN Y GYMUNED YN RHONDDA CYNON TAF

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned ei adroddiad i Aelodau, a oedd yn cynnig cynnal ymgynghoriad â ffocws gyda defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau lleol y Canolfannau Dydd yn y Gymuned sy'n weddill i lywio penderfyniad dilynol ar eu dyfodol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod Canolfannau Dydd yn y Gymuned y Cyngor wedi rhoi cyfle pwysig i bobl hŷn yng nghymunedau Rhondda Cynon Taf gael bwyd poeth bob dydd a chymryd rhan mewn ystod o weithgareddau sy'n helpu i fynd

i'r afael ag ynysu ac unigrwydd cymdeithasol. Serch hynny, mae'r niferoedd o brydau bwyd sy'n cael eu darparu yn gostwng yn araf bob blwyddyn ac yn seiliedig ar y nifer fach o ddefnyddwyr y gwasanaeth, byddai modd dadlau'n rhesymol nad yw'r model cyfredol yn diwallu anghenion y mwyafrif o bobl hŷn. Parhaodd y Cyfarwyddwr trwy roi gwybod am y cynnig i gynnal ymgynghoriad am chwe wythnos gyda defnyddwyr y gwasanaethau a'r cymunedau lleol ar ddyfodol y pedwar Canolfan Ddydd yn y Gymuned sy'n weddill (ac eithrio Canolfan Ddydd Alec Jones sy'n destun ymgynghoriad ar wahân), gan archwilio cyfleoedd ar gyfer modelau darparu gwasanaethau amgen naill ai trwy fodel y Canolfannau Cymunedol lle bo'n briodol neu drwy sefydliadau trydydd sector sy'n bodoli eisoes yn y cymunedau dan sylw.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg y cyfle ymgynghori gan ddweud roedd yn bwysig bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau sy'n briodol i'r gymuned ac i'r cenedlaethau i ddod, gan ganiatáu i'r ddarpariaeth ddatblygu ac adlewyrchu'r oes sydd ohoni.

PENDERFYNWYD:

1. Cymeradwyo ymgynghoriad â ffocws, chwe wythnos o hyd, gyda defnyddwyr y gwasanaethau a chymunedau lleol ar ddyfodol y pedair Canolfan Ddydd yn y Gymuned sy'n weddill.
2. Bod adroddiad pellach ar ganlyniad yr ymarfer ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w ystyried gydag argymhellion yn ymwneud â Chanolfannau Dydd yn y Gymuned.

(**D.S.** Ar y pwynt yma yn y cyfarfod gadawodd y Cynghorydd bwrdeistref Sirol M Weaver y cyfarfod.)

83

CYN CRAFFU - STRATEGAETH DDRAFFT CARTREFI GWAG

Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Llywodraethol fanylion i Aelodau am yr ymarfer cyn craffu a gafodd ei wneud gan y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles yn ei gyfarfod ar y 9 Hydref mewn perthynas â'r Strategaeth Cartrefi Gwag.

Cafodd yr Aelodau wybod am y sylwadau adeiladol a gafodd eu cyflwyno gan y Pwyllgor mewn perthynas â Chynyddu Ymwybyddiaeth o waith y Cyngor a'r darpariaethau sydd ar gael i breswylwyr eu datblygu; cyflwyno grant i landlordiaid er mwyn iddyn nhw brynu eiddo gwag i helpu gyda chyflenwi tai fforddiadwy mewn ardaloedd lle mae galw uchel ac yn olaf effaith tai gwag ar fwynderau'r gymdogaeth - Posibilrwydd dymchwel adeiladau.

Yna, rhoddodd Pennaeth Adfywio a Ffyniant fanylion i Aelodau am y strategaeth ddrafft i'w chymeradwyo yn dilyn ymafer cyn craffu. Dywedodd wrth yr Aelodau am y rhesymeg dros y strategaeth a'r targedau sy wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag eiddo gwag gan ychwanegu y byddai'r Strategaeth yn darparu fframwaith ar gyfer cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni'r targed yma.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai y strategaeth gan roi sylwadau ar yr effaith y mae eiddo gwag yn ei chael ar

gymunedau lleol a chyflwynodd sylwadau ar y cynlluniau grant llwyddiannus sydd ar gael i gefnogi adfer eiddo gwag. Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet hefyd i'r Pwyllgor Craffu am y gwaith sy wedi'i wneud yn y maes yma.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi sylwadau ac arsylwadau'r Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles, sy wedi'u hatodi yn Atodiad A yr adroddiad.
2. Cymeradwyo'r argymhellion sy wedi'u hamlinellu yn y Strategaeth Cartrefi Gwag fel sy wedi'u rhestru isod:
 - I. Cymeradwyo'r rhoi'r Strategaeth Ddrafft Cartrefi Gwag ar waith.

84 DEALL EFFAITH BOSIBL BREXIT, YN ARBENNIG BREXIT 'HEB FARGEN', AR Y CYNGOR

Rhoddodd y Prif Weithredwr adroddiad i Aelodau ar fanylion 'Brexit' gan sicrhau bod yr Aelodau'n ymwybodol o effaith bosibl 'Brexit', ar ei wahanol ffurfiau. Bwriad hyn oedd helpu i lywio penderfyniadau'r Cyngor yn y dyfodol; a chefnogi trigolion a busnesau lleol a fydd efallai'n cael eu heffeithio gan y newid economaidd sylweddol yn y berthynas rhwng y DU a'r UE.

Nododd y Prif Weithredwr fod llawer o newidiadau wedi digwydd o ran y Cytundeb Brexit a gafodd ei gyflwyno gan y Prif Weinidog ers cyhoeddi'r papur. Cafodd Aelodau eu cyfeirio at adran 6 yr adroddiad a oedd yn trafod ym mha ffyrdd y mae'n bosibl y bydd Brexit yn effeithio ar Lywodraeth leol.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Prif Weithredwr am yr wybodaeth ddiweddaraf a soniodd am y pryderon roedd e wedi'u codi gyda CLILC mewn perthynas â Brexit a'r effaith y bydd hyn efallai yn ei chael ar y Cyngor yn y dyfodol. Cyfeiriodd at y posibilrwydd y byddai cyllid yn dod yn lle'r cyllid cydgyfeirio, ac yn cael ei roi yn uniongyrchol i ranbarthau o fewn Cymru, gan osgoi'r broses ddatganoli. Siaradodd yr Arweinydd hefyd am yr ansicrwydd ac effaith bosibl Brexit ar gyflenwi bwyd a chyfnod posibl o anniddigrwydd sifil. Ychwanegodd fod yr adran gaffael yn edrych ar y ddarpariaeth fwyd bresennol i geisio nodi unrhyw effaith.

Gwnaeth Aelodau o'r Cabinet sylwadau ar yr adroddiad a'r ansicrwydd, a chytunodd Aelodau y dylid darparu adroddiad briffio pellach yng nghyfarfod y Cyngor, er mwyn sicrhau bod pob Aelod yn ymwybodol o'r sefyllfa bresennol.

Siaradodd y Cynghorwr Bwrdeistref P Jarman ar y mater hefyd.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad.
2. Gofyn am sesiynau briffio pellach yn y cyfnod hyd at 29 Mawrth 2019.
3. Cyflwyno adroddiad ar Brexit i gyfarfod y Cyngor ar y 28 Tachwedd,

2018.

(**D.S.** Ymunodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M. Adams â'r cyfarfod yn ystod yr eitem hon.)

85 **GORFODAETH PARCIO SIFIL**

Cyfeiriodd Rheolwr y Gwasanaethau Parcio a Gofal y Strydoedd Aelodau at ei adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r Cyngor i ddaparu swyddogaethau prosesu gweinyddol Hysbysiadau Tâl Cosb Gorfodaeth Parcio Sifil ar ran Awdurdodau Lleol ychwanegol yn Ne Cymru. Cafodd Aelodau eu hatgoffa bod gan RhCT brofiad sylweddol o weithredu gwasanaeth Gorfodaeth Parcio Sifil ac er Ebrill 2018, roedd wedi bod yn darparu gwasanaethau prosesu gweinyddol Hysbysiadau Tâl Cosb ar gyfer CBS Merthyr Tudful. Ychwanegodd, yn ogystal â dymuniad y cynghorau yn yr ardal a oedd yn cael ei hadnabod fel 'Gwent' gynt i roi eu gwaith prosesu gweinyddol i sefydliad allanol, efallai bod cyfle i RCT gynnig gwasanaethau fel y rhain i Gynghorau Lleol eraill hefyd.

Parhaodd y Swyddog hefyd i roi diweddariad byr i'r Aelodau mewn perthynas â'r camera symudol sy'n rhan o wasanaeth gorfodaeth parcio'r Cyngor. Cafodd y camera ei gyflwyno'n ddiweddar i helpu i fynd i'r afael â phroblemau parcio y tu allan i ysgolion, ger croesfannau i gerddwyr ac mewn clirffyrdd arhosfan bws. Cafodd Aelodau wybod fod data rhagarweiniol yn nodi bod bron i 822 o yrrwyr eisoes wedi'u dal yn parcio'n anghyfreithlon gan Gerbyd Gorfodaeth Parcio'r Cyngor hyd at ddiwedd mis Hydref. Parhaodd y Swyddog trwy nodi bod y gyrrwyr a oedd wedi'u dal parcio'n anghyfreithlon yn derbyn Hysbysiad o rybudd ffurfiol am y pythefnos cyntaf, ac wedyn roedd Hysbysiadau Tâl Cosb yn cael eu dosbarthu o'r trydydd wythnos o weithredu'r cynllun yn unig. Yn ystod y cyfnod yma, cafodd 172 o Hysbysiadau rhybuddio eu rhoi.

Cefnogodd yr Arweinydd y cydweithredu a oedd wedi'i gynnig yn yr adroddiad gan roi sylwadau ar y cydweithredu cadarnhaol blaenorol sy wedi'i wneud yn yr ardal yma.

Siaradodd y Cyngorwr Bwrdeistref Sirol P Jarman ar y mater hefyd.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Sefydlu canolfan ranbarthol ar gyfer prosesu Hysbysiadau Tâl Cosb sy'n cael eu rhoi gan Awdurdodau Lleol ar draws De Cymru, gyda RhCT fel yr Awdurdod sy'n arwain.
2. Cefnogi gofynion gweithredu ar gyfer y gwasanaeth rhanbarthol newydd, gan gynnwys penodi adnoddau staff ychwanegol priodol yn y Gwasanaethau Priffyrdd a Gofal y Strydoedd.
3. Nodi'n briodol y diweddariad ynglŷn â camera symudol y gwasanaeth gorfodaeth parcio.

(**D.S.** ar y pwynt hwn yn y cyfarfod gadawodd y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol M Adams, P Jarman a R Yeo y cyfarfod).

86 **ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD Y CYNGOR - 30 MEDI 2018 (CHWARTER 2)**

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol grynodedb i'r Aelodau am

gyflawniad y Cyngor dros chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol yma (hyd at 30 Medi 2018) o ran materion ariannol a gweithredol.

Aeth y Cyfarwyddwr ati i drafod Crynodeb Gweithredol yr adroddiad yn fanwl, gan gynnwys cynnydd a data ariannol mewn perthynas â'r blaenoriaethau yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Tynnodd y Swyddog sylw at eithriadau ym mhob un o'r adrannau manwl er budd yr Aelodau.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol sylw ar sefyllfa gadarnhaol y Cyngor gan nodi'r pwysau sy wedi'u rhoi ar y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant. Soniodd hefyd am y ffactorau allanol sy'n cyfrannu at rai o dargedau'r Dangosyddion Cyflawniad.

Hefyd, siaradodd yr Arweinydd am yr adroddiad a'r pwysau o fewn y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol, a chyfeiriodd at newidiadau ôl-ddilydol i gyllid Barnett a'r cyllid a fydd ar gael o bosibl mewn perthynas â'r pwysau hyn.

PENDERFYNWYD:

Refeniw

1. Nodi a chytuno ar sefyllfa refeniw Cronfa Gyffredinol y Cyngor fel yr oedd ar 30 Medi 2018 (Adran 2 o'r Crynodeb Gweithredol) a nodi y bydd dyraniad cyllid ychwanegol un-tro gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy yn cael ei ymgorffori yn Adroddiadau Cyflawniad yn hwyrach yn y flwyddyn.
2. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau (wedi eu rhestru yn Adrannau 2a–d o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad), sy'n uwch na'r trothwy o £0.100 miliwn yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Cyfalaf

3. Nodi sefyllfa alldro cyfalaf y Cyngor fel y mae ar 30 Medi 2018 (Adrannau 3a-f o'r Crynodeb Gweithredol).
4. Nodi manylion Dangosyddion Materion Darbodusrwydd Cylch Rheoli'r Trysorlys fel yr oeddent ar 30 Medi 2018 (Adran 3g o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad).

Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol

5. Nodi sefyllfa chwarter 2 ynghylch y cynnydd mewn perthynas â blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol cytûn (Adrannau 5a–d o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad), Mesurau Cenedlaethol Eraill (Adran 5e o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad) a chymharu targedau 2018/19 â'r flwyddyn flaenorol a gwybodaeth am gyfartaledd cyflawniad Cymru gyfan (Adran 5f o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad).

sylyfaen Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa o'r gofyniad statudol i gytuno a gosod sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod cyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr fanylion i'r Aelodau mewn perthynas â'r cyfrifiadau gan nodi mai Sylfaen Treth y Cyngor gros sy wedi'i gyfrifo ar gyfer 2019/20 yw £78,844.31. Y cynnig yw bod y gyfradd gasglu yn parhau i gael ei amcangyfrif yn 97.5%. Mae hyn yn cynhyrchu Sylfaen Treth y Cyngor net o £76,873.20. Mae hyn yn golygu y bydd swm o £76,873 yn cael ei gynhyrchu i fodloni gofynion cyllideb y Cyngor am bob £ 1 o Dreth y Cyngor sy'n cael ei chodi y flwyddyn nesaf.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol am bwysigrwydd gosod sylfaen Treth y Cyngor i gynorthwyo gyda gosod y gyllideb ac ar ôl ystyried yr adroddiad **PENDERFYNWYD:**

1. Yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd, y swm sy wedi'i gyfrifo gan y Cyngor fel ei sail dreth net ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20, fydd £76,873.20.
2. Y bydd sail dreth 2019/20 ar gyfer dibenion Treth y Cyngor ym mhob ardal y Fwrdeistref Sirol wedi'i gosod yn unol â'r hyn sy wedi'i nodi yn Atodiad 1 yr adroddiad.

88 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad

PENDERFYNWYD: "Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

89 CYNLLUN RHEOLI ASED AU CORFFORAETHOL 2018-2023

Rhoddodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael ei adroddiad i Aelodau a oedd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig, yn manylu ar ddrafft y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar gyfer Asedau Eiddo 2018-2023, a oedd yn cynnwys y cyfeiriad strategol a'r fframwaith polisi ar gyfer cyfnod y cynllun.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Derbyn a mabwysiadu'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar gyfer 2018-2023, fel sydd wedi'i atodi i'r adroddiad.
2. Derbyn adroddiadau diweddar cyfnodol ar gynnydd y themâu allweddol o fewn fframwaith strategol y Cynllun Rheoli.
3. Mabwysiadu'r gwelliannau i'r polisi ar gyfer ystyried ceisiadau i drosglwyddo asedau o'r Cyngor sy wedi'u nodi yn Atodiad 3 y Cynllun Rheoli.
4. Mabwysiadu'r Strategaeth Rheoli Dŵr sy wedi'i nodi yn Atodiad 6 y Cynllun Rheoli fel polisi.

90 ARDALOEDD CYFLE STRATEGOL: CAFFAELIADAU

Rhoddodd Pennaeth Adfywio grynodedb o'r adroddiad a oedd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig, a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ddirprwyedig (mewn ymgynghoriad â'r Aelodau perthnasol o'r Cabinet) gan y Cabinet i gaffael tir ac adeiladau o fewn yr Ardal oedd Cyfle Strategol sydd wedi'u cytuno, yn amodol ar werth gorau a phroses ddiwydrwydd dyladwy gadarn, er mwyn hwyluso cyflawni amcanion y Cyngor ar gyfer yr ardaloedd yma.

Yn dilyn ystyriaeth, **PENDERFYNWYD:**

1. Rhoi'r awdurdod i Gyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor i gaffael adeiladau a thir allweddol o fewn y pum Ardal Cyfle Strategol sy wedi'u cytuno, mewn ymgynghoriad â'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu, Menter a Thai a'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol ac yn amodol ar gwblhau achosion busnes priodol a chael y gymeradwyaeth ariannol angenrheidiol. Y pum Ardal Cyfle Strategol yw:

- Porth Cynon – *Gwefru'r rhanbarth*
- Pontypridd Ehangach, Trefforest – *Cyrion y ddinas, calon y rhanbarth*
- Tref Pontypridd – *Canolbwynt y rhanbarth*
- Coridor A4119: *Porth rhanbarthol Rhondda*
- Llanilid ar bwys M4: *Llywio'r economi ranbarthol*

91 CYNON VALLEY WASTE DISPOSAL COMPANY LIMITED AC AMGEN RHONDDA LIMITED - CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol grynodedb i'r Aelodau o'i adroddiad, oedd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig. Tynnwyd sylw'r Aelodau at yr atodiadau i'r adroddiad oedd yn rhoi datganiadau ariannol y Cwmnïau sydd i'w cyflwyno i Gyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol y cwmni 'Cynon Valley Waste Disposal Company Limited' a'r cwmni 'Amgen Rhondda Limited' ("y Cwmnïau"), sydd i'w cynnal am 10.00am ddydd Iau 6 Rhagfyr 2018 yng Nghanolfan Addysg Amgen, Bryn Pica, Llwydcoed, Aberdâr.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Cadarnhau'r bwriad presennol i barhau i weithredu Cynon Valley Waste Disposal Company Limited ac Amgen Rhondda Limited (y 'Cwmnïau') yn gwmnïau wedi'u rheoli gan yr Awdurdod Lleol yn y dyfodol;
2. Yn amodol ar fodloni Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen (neu ei gynrychiolydd enwebedig) nad oes unrhyw afreoleidd-dra yng nghyfrifon "y Cwmnïau", dylai'r cyfrifon gael eu derbyn ar ran y Cyngor.
3. Ailbenodi Baldwins Audit Services Limited yn archwilyr i'r Cwmnïau am y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019.

4. Bydd Swyddi Cyfarwyddwyr y Cwmnïau yn parhau yn achos Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol.
5. Penodi Cyfarwyddwr Anweithredol i fwrdd y Cwmnïau, gyda'r cyfrifoldeb am ei benodi yn cael ei ddirprwyo i Gyfarwyddwyr y Cwmnïau, mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol;
6. Awdurdodi Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol ac/neu ei enwebai i arfer pleidlais y Cyngor yng Nghyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol y Cwmnïau yn unol ag argymhellion 2 i 5 uchod.
7. Bydd Aelod o'r Cabinet yn cynrychioli'r Cyngor yng Nghyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol y Cwmnïau.

(D.S. Fel sydd wedi ei nodi yng nghofnod 76, pan gafodd trafodaeth a phleidlais eu cynnal ynglŷn â'r eitem yma, gadawodd Mr N Wheeler a Mr B Davies y cyfarfod.)

**Daeth y cyfarfod i ben am Time Not
Specified**

**Cllr A Morgan
Cadeirydd.**